Cyfarfod Rhanddeiliaid Sector Taith - Crynodeb
Dydd Mawrth 24 Medi 2024
12.00 – 1.00pm
Cyfarfod a gynhaliwyd dros Teams

Rhestr o'r bobl a fu'n bresennol	
Yn bresennol:	Walter Brooks, Rheolwr Rhaglen, Taith (WB) Cath Moulogo, Dolen Cymru Lesotho Rowena Kidger, Prifysgol Metropolitan Caerdydd Gareth Jenkins, Heddlu Gwent Police Sara Novo, Coleg Gwent Liesa Nottle, Prifysgol Caerdydd Shoko Doherty, Celtic English Academy Vicky Thomas, Colegau Cymru Catrin James, Urdd Gobaith Cymru Christine Monks, Prifysgol Bangor Lloyd Tan, CCW - Training Academy Carole Phillips, Grŵp Addysg Jig-so Sharon Flint Wood, Dolen Cymru Lesotho Sian Smith, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf Rachel Taylor-Evans, Dolen Cymru Lesotho Tom Weiser, WCIA Natalie Goodger, Coleg y Cymoedd Amanda Morgan, International Links Global Danial Ashman, Coleg Gwent Lowri Bunford-Jones, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol Rebecca Booker, Equal Education Partners Sarah Bradney, Prifysgol De Cymru Catherine Evans, Jisc Chloe Rees, TUC Cymru Liz Millman, Learning Links International CIC Eirwyn Griffiths, Cyngor Sir Caerfyrddin Rose Matthews, Prifysgol Caerdydd Richard Gordon, Coleg Caerdydd a'r Fro

	Natalie Roberts, Coleg Cambria Stella Warren, Celtic English Academy Christy Anson-Harries, Coleg Sir Gâr Lyndsey Thomas, GISDA Violet Matsoso, Ysgol Gynradd Morija Howard Williamson, Prifysgol De Cymru Kirsten Foerster, Prifysgol Aberystwyth Donna Davies-Piper, Coleg Gŵyr Abertawe Chibuzo Amadi, Prifysgol De Cymru Michaela Rohmann, WCIA Jon Williams, Ieuenctid Sir Benfro Andrea Waddington, Ysgol Gynradd Sili Christine Monks, Prifysgol Bangor
Ymddiheuriadau:	Ellie Bevan, Pennaeth Polisi, Rhaglenni ac Ymgysylltu, Taith (EB)
Swyddog Gweithredol Rhaglen Taith (TPE):	Susana Galvan Hernandez, Cyfarwyddwr Gweithredol, Taith (SGH) Claire Richardson, Swyddog Prosiect, Taith (CR) Sion James, Swyddog Prosiect, Taith (SJ) Rebecca Payne (RP)
Ysgrifenyddiaeth gynorthwyol:	Delyth Johnson, Gweinyddwr, Taith (DJ)

Cofnodion		**Gweithred**
Eitem ar yr agenda	**Eitem**	
1	**Croeso a chyflwyniadau (WB)**	
1.1	Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod ac fe'u hatgoffwyd fod y cyfarfodydd hyn yn gyfle i gael trafodaeth anffurfiol am ddatblygiadau rhaglen, ac i gael eu hadborth a'u barn ar amrywiol bolisïau, prosesau a chyfathrebu. Nid yw'r cyfarfodydd hyn yn gyfarfodydd gwneud penderfyniadau, ond bydd y trafodaethau a'r adborth a dderbynnir yn helpu Taith i lywio unrhyw gynigion y mae'n eu gwneud i Fwrdd Cyfarwyddwyr ILEP Ltd, sy'n gyfrifol am wneud yr holl benderfyniadau allweddol fel rhan o'r rhaglen.	

	Gwahoddwyd Sharon Flint Wood, Cyfarwyddwr Cydweithredol (Rhaglenni) a Cath Moulogo, Cyfarwyddwr Cydweithredol (Llywodraeth a Chyllid) o Dolen Cymru i roi cyflwyniad ar arfer gorau a strategaethau ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth a sgiliau rhyngddiwylliannol i'r grŵp.	
2	**Diweddariadau (SJ)**	
2.1 **2.1a** **2.1b**	**Diweddariad Taith** **Llwybr 2 2024** Mae Taith wedi bod yn gweithio i baratoi lansiad Llwybr 2 2024. Y dyddiad lansio yw Dydd Iau 3 Hydref 2024 a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau bydd Dydd Iau 21 Tachwedd 2024 am hanner dydd. Cyhoeddir yr hysbysiad o ganlyniadau ym mis Mawrth 2025 a bydd prosiectau llwyddiannus yn cychwyn o 1 Mai 2025. Bydd Taith yn cynnal cyfres o weminarau i hyrwyddo'r alwad am gyllid ac i gynnig arweiniad pellach, a fydd yn digwydd o fis nesaf ymlaen. Mae rhagor o wybodaeth a dolen i gofrestru i'w cael ar wefan Taith. Bydd hefyd fideos wedi'u recordio a deunydd cymorth i'r holl ymgeiswyr. Anogodd tîm Taith y grŵp i gysylltu os ydych am drafod eich syniad ar gyfer prosiect Llwybr 2 neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr alwad am gyllid yn fwy cyffredinol. **Llwybr 1 2025** Mae Taith wedi dechrau gweithio ar yr alwad am gyllid Llwybr 1 nesaf yn 2025. Nid oes unrhyw fanylion pendant i'w rhannu ar hyn o bryd, ond mae Taith yn gobeithio agor yr alwad yn gynnar ym mis Ionawr 2025 a'i chau ddiwedd mis Chwefror 2025. Byddai'r hysbysiad o ganlyniadau tua mis Mehefin 2025, ac ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus, bydd eu prosiectau yn dechrau ym mis Medi 2025.	
3	**Pynciau i'w Trafod (RP)**	
3.1	**Ymwybyddiaeth a Sgiliau Rhyngddiwyllianol** Cyflwynodd Rebecca Payne y siaradwyr ac eglurodd y byddai trafodaeth ar dri phrif bwnc ar ôl y cyflwyniadau: 1. Pa strategaethau a hyfforddiant sydd gennych ar waith yn eich sefydliadau i baratoi dysgwyr (a staff) i ymgymryd â symudedd dramor? 2. Ym mha feysydd ydych chi'n meddwl y byddai angen cymorth arnoch chi? 3. Sut allai Taith gefnogi'ch sefydliad, fel Derbynnydd Grant, i ddatblygu'ch sgiliau rhyngddiwylliannol?	

3.1a	Rhoddodd Sharon Flint Wood, Cyfarwyddwr Cydweithredol (Rhaglenni) a Cath Moulogo, Cyfarwyddwr Cydweithredol (Llywodraeth a Chyllid) o Dolen Cymru gyflwyniad ar yr hyn y maent wedi'i ddarganfod fel arfer gorau a strategaethau ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth a sgiliau rhyngddiwylliannol. Bydd y cyflwyniad yn cael ei rannu gyda'r grŵp ar wahân. Dyma uchafbwyntiau'r cyflwyniad: - Mae partneriaeth Dolen Cymru Lesotho ag ysgolion yn Lesotho bron yn 40 oed. - Eu gwerthoedd craidd yw partneriaeth, cydweithredu a chynwysoldeb, cyfrifoldeb, ymatebolrwydd, amrywiaeth a chydnabyddiaeth. - Nod y cyflwyniad oedd amlygu gwaith parhaus Dolen i leihau risg a niwed anfwriadol drwy gyllid Taith gyda ffocws ar hiliaeth gwrth-Du/Affricanaidd. - Rhaid i gydweithio fod wrth galon pob prosiect. - Cydraddoldeb rhwng partïon yn y bartneriaeth. - Gall rhagdybiaethau diwylliannol arwain at niwed. - Mae canllawiau teuluoedd gwesteio wedi'u rhoi ar waith i helpu i feithrin ymwybyddiaeth. - Cydsyniad gwybodus ar gyfer cyfryngau cymdeithasol ar y ddwy ochr. - Deall rôl pŵer a braint. - Mae Dolen yn darparu'r canlynol fel rhan o'u prosiectau: o Cytundebau Partneriaeth – yn cael eu trafod a'u llofnodi ar ddechrau'r prosiect a'u cyfieithu o Cydsyniad a hyfforddiant y cyfryngau o Cymorth prosiect o Hyfforddiant gwrth-hiliaeth o Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Hiliaeth o Cymorth cyn cyrraedd e.e. cyfarfodydd ar-lein gyda staff y prosiect cyn cyrraedd, gan sicrhau bod y gwesteiwyr wedi ystyried a pharatoi ar gyfer disgwyliadau diwylliannol.	
3.1b	Camau parhaus Dolen yn y dyfodol (sleid 18 y cyflwyniad): - Maent wedi llofnodi siarter Gwrth-Hiliaeth Hub Cymru Africa - Maent wedi rhoi Cynllun Gweithredu Cynhwysiant sefydliadol ar waith - Maent wedi sefydlu Grŵp Cynhwysiant fel rhan o'u prosiect Llwybr 2 Taith - Maent yn ymgysylltu â Taith a rhanddeiliaid eraill i godi ymwybyddiaeth a herio arferion y gorffennol - Maent yn gweithio gydag arbenigwyr fel BAME-Ed i sicrhau cymorth ychwanegol i athrawon Basotho.	
3.1c	Awgrymiadau Dolen (sleid 19 y cyflwyniad): - Deall cyd-destun/hanes penodol eich dolen	

	- Cael ymrwymiad o'r brig
	  ○ Mae angen adnoddau
	  ○ Mae angen amser.
	- Normaleiddio'r disgwyliad y disgwylir ymagwedd Wrth-hiliol (nid yw'n "radical")
	- Bod yn ddewr – yn enwedig gyda'r cyfryngau cymdeithasol
	- Bod â strategaeth
	- Ymateb yn dryloyw
	- Nid ydych byth wedi "gorffen" â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.	

3.1d	Mae adnoddau i'w cael ar dudalen 20 y cyflwyniad.	
3.2	Ar ôl y cyflwyniad roedd trafodaeth fer yn canolbwyntio ar y tri maes a ganlyn a amlygwyd ar ddechrau'r adran hon.	

3.2a	Cododd y grŵp y pwyntiau canlynol:
	1. Pa strategaethau a hyfforddiant sydd gennych ar waith yn eich sefydliadau i baratoi dysgwyr (a staff) i ymgymryd â symudedd dramor?
	  • Sesiynau hyfforddi cyn ymadael – gan gynnwys gwahaniaethau diwylliannol mewn tasgau arferol - gweld cryfder mewn gwahaniaeth e.e. gorchymyn traffig.
	  • Cododd un o'r aelodau sut maent yn arwain hyfforddiant/trafodaeth a arweinir gan gyfranogwyr gan ddefnyddio'r model hwn – Principles of Appreciative Inquiry - The Center For Appreciative Inquiry.
	  • Gair i gall ar gysyniad.
	  • Mae angen gofal ar bob adeg – ymwybyddiaeth o hanes y ddwy wlad, y balchder, dealltwriaeth a dathliad gwerthoedd y gwledydd maent yn ymweld â nhw.
	  • Mae ymwybyddiaeth o hiliaeth yn lleihau rhagfarn.
	  • Mae'r ddwy ochr yn agored i ddysgu, dad-ddysgu eu rhagdybiaethau, cydgyfnewidioldeb.
	  • Rhaid trafod pynciau anodd i helpu i ddyfnhau'r profiad.
	2. Ym mha feysydd ydych chi'n meddwl y byddai angen cymorth arnoch chi?
	  • Cododd aelod gwestiwn ar ymwybyddiaeth a bod normaleiddio'r 'aw' a'r 'wps' o gymorth (sleid 3 o'r cyflwyniad) ac roedd yn pendroni er enghraifft, mewn aflonyddu rhywiol lefel isel na fyddai'n bryder diogelu, ond a allai fod yn dderbyniol mewn gwlad arall, a allem archwilio awgrymiadau ar gyfer hyn ac arfer gorau?
	3. Sut allai Taith gefnogi'ch sefydliad, fel Derbynnydd Grant, i ddatblygu'ch sgiliau rhyngddiwylliannol?
		Taith i drafod pa gamau nesaf y gellir eu cymryd i gefnogi Derbynwyr Grant.

	• Adnoddau ar y wefan, e.e. enghreifftiau arferion gorau, • Os oes gennych ragor o syniadau ar sut y gallwn eich cefnogi orau, cysylltwch â thîm Taith.	
4	**Eitemau a godwyd gan aelodau'r grŵp rhanddeiliaid sector**	
4.1	Ni chodwyd unrhyw eitemau.	
5	**Dyddiad y cyfarfod nesaf**	
5.1	Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2025, dyddiad i'w gadarnhau.	